Cymraeg



# Professor Paul Boyle

## Vice-Chancellor

### New Sustainability and Climate Emergency Strategy (2021-2025)

Dear colleagues,

Many of you will be aware that over the last decade, our University has made fantastic progress in our drive towards organisational sustainability. This is reflected in our rapid rise in The Guardian's People and Planet University League (the 'Green League'), from 122nd place in 2011 to our current position of 9th place. This **top ten ranking** has only been possible thanks to the hard work of colleagues across our University, to develop our previous sustainability strategies and both our Biodiversity and Carbon Management Action Plans.

While we are justifiably proud of our progress to date, we are also mindful of the need for us to do more to meet the sustainability challenges facing our planet. The urgency of the climate emergency, our University's commitment to the United Nations Sustainable Development Goals and the shifting expectations of our staff, students, partners and wider community are just a few of the drivers which motivate us to continually improve our sustainability performance.

I am therefore delighted to be able to launch our University's new Sustainability and Climate Emergency Strategy (2021-2025). The strategy sets out our ambitious, high-level commitments to creating a more sustainable future, and covers four major themes: The Climate Emergency; Our Natural Environment; Our Working Environment and lastly, Our Travel.

Our new strategy enshrines the principles of our Sustainability Policy, and reaffirms our commitment to ensuring that our research, teaching activities and operations promote and support a sustainable future for all, while protecting our environment. As we build our future capacity to address

sustainable development issues, we will also seek to make a positive impact through our business operations.

This strategy directly supports our [Strategic Vision and Purpose](), and will further position our University as a leader in organisational sustainability and climate change action.  The pursuit of sustainable development is an exciting challenge for Swansea University, and presents us with the opportunity to play a crucial leadership role within our region, our nation and the international higher education sector.

Best wishes,

Paul

**Professor Paul Boyle**
**Vice-Chancellor**

*Please Note: This email is sent from an unmonitored mailbox.*



# Yr Athro Paul Boyle
## Is-ganghellor

### Strategaeth Cynaliadwyedd ac Argyfwng Hinsawdd newydd ar gyfer 2021-2025

Annwyl gydweithwyr,

Bydd llawer ohonoch yn gwybod bod ein Prifysgol wedi gwneud cynnydd gwych dros y degawd diwethaf yn ein hymgyrch i fod yn sefydliadol gynaliadwy. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu gan ein hesgyniad cyflym yng Nghynghrair Prifysgolion People and Planet *The Guardian* (‘y gynghrair werdd’), o'r 122fed safle yn 2011 i'n safle presennol, sef nawfed. Ni fyddem wedi gallu **cyrraedd y**

**deg uchaf** heb waith caled cydweithwyr ym mhob rhan o'n Prifysgol i ddatblygu ein strategaethau cynaliadwyedd blaenorol a'n cynlluniau gweithredu o ran bioamrywiaeth a rheoli carbon.

Er bod gennym hawl i ymfalchïo yn ein cynnydd hyd yn hyn, rydym hefyd yn gwybod bod angen i ni wneud mwy o waith i fynd i'r afael â'r heriau i gynaliadwyedd y mae ein planed yn eu hwynebu. Mae natur frys yr argyfwng hinsawdd, ymrwymiad ein Prifysgol i nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a disgwyliadau newidiol ein staff, ein myfyrwyr, ein partneriaid a'r gymuned ehangach ymysg y sbardunau sy'n ein cymell i wella ein perfformiad o ran cynaliadwyedd, a hynny'n barhaus.

Felly, rwy'n falch o gael y cyfle i lansio Strategaeth Cynaliadwyedd ac Argyfwng Hinsawdd newydd ein Prifysgol ar gyfer 2021-2025. Mae'r strategaeth yn nodi ein hymrwymiadau uchelgeisiol ar lefel uchel i greu dyfodol mwy cynaliadwy, ac yn cwmpasu pedair thema fawr: Yr Argyfwng Hinsawdd; Ein Hamgylchedd Naturiol; Ein Hamgylchedd Gwaith; ac, yn olaf, Ein Teithio.

Mae ein strategaeth newydd yn ymgorffori egwyddorion ein Polisi Cynaliadwyedd, ac yn cadarnhau o'r newydd ein hymrwymiad i sicrhau bod ein gwaith ymchwil, ein gweithgareddau addysgu a'n gweithrediadau'n hyrwyddo ac yn cefnogi dyfodol cynaliadwy i bawb, gan ddiogelu ein hamgylchedd. Wrth i ni gryfhau ein gallu i fynd i'r afael â materion datblygu cynaliadwy yn y dyfodol, byddwn hefyd yn ceisio creu effaith gadarnhaol drwy ein gweithrediadau busnes.

Mae'r strategaeth hon yn mynd ati'n uniongyrchol i ategu Gweledigaeth Strategol a Phwrpas y Brifysgol, a bydd yn atgyfnerthu'r ffaith ein bod ar flaen y gad o ran cynaliadwyedd sefydliadol a chamau gweithredu ar newid yn yr hinsawdd. Mae sicrhau datblygu cynaliadwy yn her gyffrous i Brifysgol Abertawe ac mae'n rhoi cyfle i ni chwarae rôl arweiniol allweddol yn ein rhanbarth, ein cenedl a'r sector addysg uwch rhyngwladol.

Dymuniadau gorau,

Paul

**Yr Athro Paul Boyle**
**Is-ganghellor**

*Sylwer os gwelwch yn dda: danfonwyd y neges hon o flwch e-bost nad yw'n cael ei fonitro.*

Issued by Swansea University